

Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751



The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolwyr

ar gyfer y cyfnod

1 Ionawr 2025

i

31 Rhagfyr 2025

**Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion
157-163 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8UE**

**Rhif Elusen Gofrestredig 313141
www.cymmrodorion.org**



Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion

Adroddiad a Chyfrifon ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2025 i 31 Rhagfyr 2025

Cynnwys

Tudalen

Gwybodaeth Weinyddol a Chyfeiriadol	1
Amcanion Elusennol	2
Gweithgareddau a Chyflawniadau	2
Llywodraethiant a Strwythur	4
Adolygiad Ariannol	6
Datganiad	7
Datganiadau Ariannol	8

Gwybodaeth am Gyfeiriadau a Gweinyddiaeth

Enw'r Elusen: The Honourable Society of Cymmrodorion
Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion
Rhif Elusen Gofrestredig: 313141
Swyddfa Gofrestredig 157-163 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8UE
Gwefan: www.cymmrodorion.org

Llywydd

Yr Athro Syr Deian Hopkin FRHistS FLSW FRSA FCGI

Is-Lywyddion ar 31 Rhagfyr 2025

Y Gwir Anrhydeddus Syr Anthony Evans RD MA LLB
FCI Arb
Y Gwir Anrhydeddus Mr Alun Michael BA FRSA
Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Murphy o Dorfaen
MA
Syr Keith Thomas DLitt LLD FBA FLSW
Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Thomas
o Gwmgïedd PC CB

Y Gwir Anrhydeddus Yr Arglwydd Wigley o Gaernarfon
BSc
Dr Carol Bell PhD DLitt FLSW
Yr Athro Y Fonesig Elan Closs Stephens DBE FLSW DL
Yr Athro Laura McAllister CBE FLSW
Elinor Bennett, Y Fonesig Wigley, OBE

Aelodau'r Cyngor (Ymddiriedolwyr yr Elusen) ar ddyddiad arwyddo'r Adroddiad Blynyddol

Sioned Bowen, ymddiswyddodd 23.10.25
Yr Athro W Stuart Cole CBE FCIT FILT (2026)
Rhys David (2027)
Theo Davies-Lewis, ymddiswyddodd 23.10.25
Elinor Talfan Delaney (2027)
Tomos Rhys Edwards, cyfetholwyd 10.1.25 (2028)
Catherine Emmerich, cyfetholwyd 10.1.25 (2028)
Yr Athro Helen Fulton FLSW (2026)
Michael Gibbon CB (2028)
Syr Martin Griffiths, cyfetholwyd 21.5.25 (2028)

Yr Athro Syr Deian Hopkin (2027)
Robert John (2027)
Dafydd Lewis (2027)
Robert Nicholls, cyfetholwyd 10.1.2025 (2028)
Siân Tudor Reid (2027)
Ceridwen Roberts OBE FLSW FAcSS (2027)
Rhian Medi Roberts (2027)
Yr Athro Sara Elin Roberts (2028)
Dr Stephen Roberts (2028)
Dr Elizabeth Siberry OBE (2027)

Mae'r flwyddyn ar ôl pob enw'n dynodi'r flwyddyn fydd tymor yr aelod ar y Cyngor yn dod i ben.

Archwiliwr Annibynnol

R. Wyn Evans
Major and Evans
Bull House
15 Penrallt Street
Machynlleth
SY20 8AG

Bancwyr

HSBC Bank plc, 196 Oxford Street, Llundain W1D 1N

Amcanion Elusennol

Dan Siarter 1951 y Gymdeithas darperir fel a ganlyn:

Trwy hyn mae'r Gymdeithas yn gorfforedig ac yn gallu gweithredu gyda'r amcanion canlynol:

- (A) Yn destun i unrhyw sancsiwn angenrheidiol neu ganiatâd i gymryd drosodd oddi wrth yr Hen Gymdeithas ei hasedau a'i dyledion ac i barhau a datblygu gwaith yr Hen Gymdeithas.
- (B) I annog astudiaeth ac ymchwil mewn Llenyddiaeth, Hanes, Y Celfyddydau a Gwyddoniaeth cyn belled â'u bod o ddiddordeb arbennig i Gymry.
- (C) I hyrwyddo datblygiad Llenyddiaeth, Y Celfyddydau a Gwyddoniaeth yng Nghymru.
- (CH) I ddarparu cyfleoedd i ysgolheigion i ddarllen papurau a chyhoeddi gwaith ar Llenyddiaeth, Hanes, Gwyddoniaeth a'r Celfyddydau cyn belled â'u bod o ddiddordeb arbennig i Gymry.
- (D) I ddarparu fforwm cyffredin ar gyfer trafod materion a mudiadau sy'n effeithio'n benodol ar ddiwylliant Cymreig.
- (DD) O bryd i'w gilydd i noddi mentrau newydd sydd o fantais i Gymru mewn ysgoloriaeth ac addysg.

Yn ychwanegol at yr amcanion hyn, mae'r Gymdeithas yn bodoli er mwyn hyrwyddo Llenyddiaeth, Hanes, Y Celfyddydau a Gwyddoniaeth (yn cynnwys y Gwyddorau Cymdeithasol) cyn belled â'u bod o ddiddordeb arbennig i Gymry, ac i hwyluso trafodaeth ar y pynciau hyn.

Gweithgareddau a Chyflawniadau

Rhaglen o Ddarlithoedd a Thrafodaethau

Mae'r rhaglen yn darparu llwyfan ar gyfer materion sydd o bwys i Gymru - yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau fel ei gilydd, yn cynnwys tri digwyddiad yng nghyfres newydd y Gymdeithas - Materion Cymru (Wales Matters) a gynhelir mewn partneriaeth â Chanolfan Cymry Llundain a Chymru yn Llundain (Wales in London).

Traddodwyd deg digwyddiad, yn cynnwys darlith yr Eisteddfod.

21st January 2025

The North American Welsh

Megan Williams, Welsh North American Association

Robert Humphries, Great Plains Welsh Heritage Project

Dan Rowbotham, Madog Center for Welsh Studies

Online

20th February 2025

The June Gruffydd Memorial Lecture, in association with the Montgomeryshire Society

Tigers and Dragons: Exhibiting India and Wales

Dr Zehra Jumabhoy

Lecturer, History of Art, University of Bristol

Medical Society of London and online

17th March 2025

Wales Matters: Wales in the Media

Ifan Morgan Jones

Head of Digital Media, S4C

London Welsh Centre

22nd April 2025

Bodnant, A World of Ideas in a Welsh Garden

Iona McLaren

Online

21st May 2025

Wales and Atlantic Slavery

Professor Chris Evans

Professor in History

University of South Wales

Medical Society of London and online

6th August 2025

Darlith Goffa Flynyddol Syr Thomas Parry-Williams Memorial Lecture

Amgyffred y Amgylchedd yn Oes Gerallt Cymro

Yr Athro Huw Pryce FRHistS FLSW

Athro Emeritws Hanes Cymru

Prifysgol Bangor

Maes yr Eisteddfod

25th September 2025

Welsh National Identity and the Second World War

Professor Martin Johnes

Swansea University

Medical Society of London and online

23rd October 2025

Rediscovering Roman West Wales

Dr Mark Merrony

Wolfson College, Oxford

Medical Society of London and online

12th November 2025

Steel in Twentieth Century Wales

Professor Louise Miskell

Swansea University

Online

9th December 2025

Wales Matters: The New Political Landscape in Wales

Will Hayward

London Welsh Centre and online

Cyhoeddiadau

Trafodion y Gymdeithas

Cyhoeddwyd Cyfrol 31 (2025) y *Trafodion* eleni ac anfonwyd copi i bob aelod. Mae'r Cyngor yn diolch i'r holl gyfranwyr ac yn cofnodi ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Golygu.

Annog astudiaeth, ymchwil a gweithgareddau diwylliannol

Dros y blynyddoedd mae'r Gymdeithas wedi ceisio annog a chefnogi astudiaeth, ymchwil a gweithgareddau diwylliannol ar draws y meysydd sy'n destun i'w hamcanion elusennol, gan roi grantiau i sefydliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Gwobr Traethawd Angharad Dodds John

Lansiwyd Gwobr Traethawd Angharad Dodd John gan y Gymdeithas yn 2024, gan gynnig £500 ym mhob un o'r tair blynedd nesaf (2025–2027) am draethawd academaidd gan ysgolhaig sydd ar gychwyn ei (g)yrfa ar unrhyw bwnc yn y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol sy'n berthynol i Gymru, ei hanes, llenyddiaeth (Saesneg a Chymraeg), economeg, gwleidyddiaeth a diwylliant yn cynnwys y celfyddydau a cherddoriaeth.

Dyfarnwyd y Wobr gyntaf yn gynnar yn 2025. O garfan gref o draethodau o safon uchel ar amrywiaeth o bynciau, dewisodd y beirniaid y traethawd dan y teitl '*Welsh Historians and the Memory of the Mortimers in Sixteenth-Century Wales*', gan Dr Dewi Alter.

Rhodd hael yw'r Wobr Traethawd, gan Robert John a Philippa Dodds John, er cof am eu diweddar ferch, Angharad.

Gweithio gyda sefydliadau eraill

Mae adeiladu perthynas gyda sefydliadau eraill yn agwedd werthfawr o waith y Gymdeithas. Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar i Gymdeithas Maldwyn am eu cydweithrediad yn trefnu'r ddarlith ym mis Chwefror 2025, i'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliodd darlith Awst 2025 ac i Cymru yn Llundain a Chanolfan Cymry Llundain wrth i'r ddau sefydliad ymuno â'r Gymdeithas i gynnal digwyddiadau Materion Cymru - Wales Matters - yng Nghanolfan Cymry Llundain.

Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar i Ganolfan Cymry Llundain sy'n darparu cyfeiriad swyddogol y Gymdeithas yn 157-163 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8UE.

Mae'r Gymdeithas wedi parhau i weithio gyda sefydliadau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru neu sydd â chysylltiadau â Chymru. Mae sawl aelod o'r Cyngor yn weithgar yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru, Cymru a'r Byd, Canolfan Cymry Llundain, Ysgol Gymraeg Llundain, Cymdeithas Edward Llwyd, Cyngor Cyfraith Cymru, Cymdeithas Maldwyn, Gregynog, Gwasg Prifysgol Cymru a sawl capel Cymraeg a chymdeithasau hanes a sefydliadau diwylliannol yn Llundain a Chymru.

Llywodraethiant a Strwythur

Dogfen Llywodraethu: Y Siarter Frenhinol

Sefydlwyd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1751 a derbyniodd ei Siarter Frenhinol yn 1951. Mae'r Siarter a'r Is-ddeddfau sydd nawr mewn grym wedi eu diwygio yn ôl Gorchymyn y Cyfrin Gyngor ar Orffennaf 21^{ain} 1999.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Dan y Siarter, mae gan y Cyngor yr hawl "i reoli a meistroli'r Gymdeithas a gweinyddu'r holl eiddo a'r incwm sydd ynghlwm." Yn hynny, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros ddefnyddio pwerau'r Gymdeithas er hyrwyddo ei hamcanion. Diffinnir pwerau ac amcanion y Gymdeithas yn y Siarter. Mae'r Gymdeithas yn Elusen Gofrestredig (Rhif 313141) ac mae aelodau'r Cyngor yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwyr yr Elusen at ddibenion cyfraith elusen. Mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cyfarfod dim llai na thair gwaith bob blwyddyn.

Recriwtio ac Apwyntio Aelodau'r Cyngor

Dan Siarter ac Is-ddeddfau'r Gymdeithas bwriedir fod:

- y Cyngor yn cynnwys dim llai na deuddeg a dim mwy na deg ar hugain o Aelodau;
- traean o aelodau'r Cyngor yn ymddeol yn eu tro bob blwyddyn;
- aelodau'r Cyngor yn gymwys i'w hail-ethol heb gyfyngiad;
- seddi gwag i'w llenwi trwy etholiad gan Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gymdeithas;
- y Cyngor i gael y pŵer i lenwi seddi gwag ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn destun i gadarnhad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf.

Gall aelodau enwebu un neu fwy unigolyn o'u mysg i'w hethol i'r Cyngor gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Mae busnes Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol aelodau'r Gymdeithas yn cynnwys derbyn datganiad o'r Cyfrifon am y flwyddyn a derfynodd ar ddydd olaf y Rhagfyr blaenorol ac adroddiadau cysylltiedig, yn ogystal ag ethol rhai o Swyddogion penodol y Gymdeithas ac aelodau'r Cyngor.

Cynefino a Hyfforddi Ymddiriedolwyr

Gofynnir i'r Ymddiriedolwyr adolygu canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar www.gov.uk. Mae gan aelodau'r Cyngor brofiad eang o lywodraethiant a materion sy'n berthynol i weinyddiaeth elusennau ac maent yn gyfarwydd â nodau ac amcanion y Gymdeithas a'i gwaith.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad blynnyddol o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gymdeithas.

Swyddogion

Llywydd

Etholir Llywydd y Gymdeithas yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Ail-etholwyd Syr Deian Hopkin yn Llywydd.

Is-Lywyddion

Dan yr Is-ddeddfau gellir cael nifer (amhenodol o) Is-Lywyddion sy'n destun i'w hethol neu eu hail-ethol bob blwyddyn gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Mae swydd Is-Lywydd yn un anrhydeddus ac nid yw'r Is-Lywyddion yn aelodau *ex officio* o'r Cyngor.

Cadeirydd y Cyngor

Apwyntir Cadeirydd y Cyngor gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd, a ellir ei adnewyddu. Gwasanaethodd Syr Deian Hopkin fel Cadeirydd y Cyngor trwy gydol 2025.

Trysorydd Mygedol

Apwyntir y Trysorydd Mygedol gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd a ellir ei adnewyddu. Gwasanaethodd Dafydd Lewis fel y Trysorydd Mygedol trwy gydol 2025.

Ysgrifennydd Mygedol

Apwyntir yr Ysgrifennydd Mygedol gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd a ellir ei adnewyddu. Gwasanaethodd Siân Tudor Reid fel Ysgrifennydd Mygedol trwy gydol 2025.

Golygydd

Yr Athro Sara Elin Roberts, aelod o'r Cyngor, sy'n golygu'r Trafodion. Fe'i cefnogir gan Fwrdd Golygyddol.

Pwyllgorau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor y grym dan y Siarter i ddirprwyo unrhyw un neu'r cyfan o'i rymoedd i bwyllgorau neu is-bwyllgorau ac mae ganddo gylch gorchwyl cymeradwy ar gyfer y Pwyllgor Gweithredol.

Buddiannau'r Cyhoedd

Fel sy'n ofynnol dan dermau Deddf Elusennau 2011, mae amcanion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, a osodir yn y Siarter, yn "ddibenion elusennol" yn ôl diffiniad y Ddeddf. Maent yn cyflawni'r gofyn hwn oherwydd (i) eu bod er budd y cyhoedd a (ii) maent yn disgyn yn benodol o fewn y disgrifiad o'r ddau amcan a ddiffinnir yn Rhan 1, adran 2, isadran 2 y Ddeddf, hynny yw: b) hyrwyddo addysg; a dd) hyrwyddo'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth.

Mae gweithgareddau'r Gymdeithas sy'n cyflenwi budd i'r cyhoedd yn cynnwys yn benodol:

- (1) hybu, cefnogi a hyrwyddo astudiaeth ac ymchwil a rhannu casgliadau'r rheiny gyda'r cyhoedd;
- (2) hwyluso trafodaeth wybodus a rhyngweithio cyhoeddus ar ystod o faterion a phynciau, gyda'r canlyniad bod gwelliannau yn nealltwriaeth y cyhoedd, ac yn iechyd bywyd deallusol yn gyffredinol.

Y bobl sy'n elwa o weithgareddau'r Gymdeithas yw'r cyhoedd a "chymdeithas" yn gyffredinol, yn Llundain ac yng Nghymru yn benodol, ond hefyd yn fwy eang, fel nad oes cyfyngu daearyddol ar y buddion. Nid oes unrhyw gyfyngiadau yn seiliedig ar angen elusennol chwaith.

Cyflawna'r gweithgareddau fudd i'r cyhoedd mewn nifer o ffyrdd: trwy ddarparu llwyfan tu hwnt i ffiniau Cymru i ystyried materion o bwys i Gymru; trwy drefnu rhaglen o ddarlithoedd a thrafodaethau, yn cynnwys darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sy'n agored i'r cyhoedd; trwy gefnogi gweithgareddau ysgolheigaidd ac ymchwil megis y Bywgraffiadur Cymreig; trwy gyhoeddi a lledaenu gwybodaeth yn y *Trafodion*, yn ogystal â thrwy ei gwefan ei hun, sy'n gwneud gwybodaeth yn hawdd ei chael i gynulleidfa eang; a thrwy gydweithredu â sefydliadau eraill.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae aelodau'r Cyngor, sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel Ymddiriedolwyr yr elusen, wedi cydymffurfio â gofynion adrodd ar Fudd Cyhoeddus ar gyfer elusennau llai o faint, ac yn eu dyletswyddau wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn wrth ddefnyddio unrhyw bwerau neu ddyletswyddau sy'n berthnasol i'r canllawiau.

Adolygiad Ariannol 2025

Ar ddiwedd 2025 roedd cyfanswm asedau'r Gymdeithas yn £160,502, i fyny o £143,459 ar ddiwedd 2024. Roedd balansau arian parod y Gymdeithas ar ddiwedd y flwyddyn yn £38,964, o'i gymharu â £10,111 y flwyddyn flaenorol; mae hyn yn adlewyrchu cau cronfa bond M&G ynghanol y flwyddyn a'i gwireddu mewn arian parod. Gwerth marchnad ein buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn oedd £121,538, gostyngiad o £11,810 dros y flwyddyn flaenorol.

Incwm

Mae'r Gymdeithas yn parhau mewn iechyd ariannol da, ar ôl elwa o gamau i leihau costau ein digwyddiadau. Roedd incwm buddsoddi yn £5,957, gostyngiad bach ar y flwyddyn flaenorol, fel y disgwyliwyd oherwydd cau'r gronfa bond. Roedd incwm tanysgrifio yn gymharol â 2024, er gyda gostyngiad cymedrol (£817) dros y flwyddyn flaenorol. Hawliwyd Cymorth Rhodd ar gyfer naw mis cyntaf 2025; bydd ceisiadau am Gymorth Rhodd ar gyfer y cyfnodau dilynol, yn ogystal â 2023 a 2024, yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn nesaf.

Gwariant

Gostyngodd ein costau £7,844 yn y flwyddyn dan sylw. Roedd gwariant cyfarfodydd a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn £13,654, sef gostyngiad o £841 dros y flwyddyn flaenorol; mae hyn yn adlewyrchu taliadau anghylchol i Ganolfan Cymry Llundain, gyda pwy rydym yn cydweithio'n fwyfwy. Mae ein costau gwefan a TG, a gynyddodd £640, hefyd yn adlewyrchu taliad anghylchol.

Ystadegau aelodaeth

Roedd cyfanswm ein haelodau unigol yn y DU ar 31 Rhagfyr 2025 yn 585, ffigur sy'n cynnwys 10 Is-lywydd a 43 aelod newydd a ymunodd â'r Gymdeithas yn 2025. Roedd gennym 28 o aelodau tramor, 50 o danysgrifwyr sefydliadol yn y DU a 33 o danysgrifwyr sefydliadol tramor yn 2025.

Trafodion Partïon Perthnasol

Mae hyrwyddo gweithgareddau'r Gymdeithas yn dibynnu'n fawr ar fewnbwn gwirfoddol aelodau'r Cyngor, yn ogystal ag aelodau eraill y Gymdeithas. Mae golygu'r Trafodion yn golygu ymrwymiad amser sylweddol ac mae'r Athro Sara Elin Roberts FRHistS, Golygydd y Trafodion ac Aelod o'r Cyngor, yn derbyn honorariwm am ei gwaith. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd yr ymddiriedolwyr y gorau i ddefnyddio cyfleusterau storio'r Gymdeithas, er mwyn lleihau ein costau. Prynodd un ymddiriedolwr, Michael Gibbon, rai o gyfrolau cyhoeddiadau'r Gymdeithas a oedd wedi'u storio, am bris uwchlaw'r hyn amcangyfrifwyd gan y Gymdeithas i adlewyrchu eu gwerth marchnadol.

Polisi ar ddal a buddsoddi cronfeydd ariannol

Cedwir ein portffolio o fuddsoddiadau fel cronfeydd heb gyfyngiad. Amcan y cronfeydd hyn yw gwarantu ein dyfodol a darparu 'clustog' fach yn erbyn unrhyw amrywiadau mewn incwm a gwariant. Maent hefyd yn darparu arian, yr ydym yn ei ystyried yn wariant cyfalaf, i ariannu prosiectau penodol sy'n rhy fawr i'w hamsugno gan ein lefelau arferol o incwm blyneddol. Adolygwyd polisi buddsoddi'r Gymdeithas ac rydym yn bwriadu diweddarau cwmpas a chymhareb ecwiti/bond ein buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Datganiad

Rydym yn ardystio ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd er mwyn gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol ac i sefydlu bod archwiliwr annibynnol yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi yn unol â:

- y Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau (Ionawr 2015); a
- Canllawiau'r Comisiwn Elusennau, Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus (PB1); Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2), a Budd cyhoeddus: adrodd (PB3) (pob un ym Medi 2013).

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan y Cyngor ac arwyddwyd ar ei ran gan:



Deian Hopkin (Cadeirydd y Cyngor)

Dyddiad: 22 Mehefin 2026



Dafydd Lewis (Trysorydd Mygedol)

Dyddiad: 22 Mehefin 2026

Anrhyddedus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751



The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION

**DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN
HYD AT 31 RHAGFYR 2025**

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol ar y cyfrifon

Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen ("yr Ymddiriedolaeth") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych chi'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Rwy'n adrodd mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad, rwyf wedi dilyn y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- nad yw cofnodion y cyfrifon wedi'u cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf
- nad yw'r cyfrifon yn cytuno â chofnodion y cyfrifon

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt er mwyn galluogi dealltwriaeth iawn o'r cyfrifon.

Llofnod:

Dyddiad: 1 Gorffennaf 2026



R. Wyn Evans BSc Econ (Anrh), FCCA

Major & Evans
Cyfrifyddwyr Ardystiedig Siartredig
Bull House
15 Stryd Penrallt
Machynlleth
Powys
SY20 8AG

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Cofnodion Cyfrifyddu

Mae Adran 130 o Ddeddf Elusennau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr elusen sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw sy'n ddigonol i:

- a) ddangos ac egluro holl drafodion yr elusen;
- b) ddatgelu ar unrhyw adeg, a gyda chywirdeb rhesymol, sefyllfa ariannol yr elusen ar yr adeg honno;
- c) alluogi'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod unrhyw ddatganiad cyfrifon sy'n ofynnol gan adran 132(1) yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau a wnaed oddi tani; ac, yn benodol, i gynnwys
- d) cofnodion sy'n dangos, o ddydd i ddydd, yr holl symiau o arian a dderbyniwyd ac a wariwyd gan yr elusen, a'r materion y mae'r derbyniad a'r gwariant yn digwydd mewn perthynas â hwy; a
- e) cofnod o asedau a rhwymedigaethau'r elusen.

Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod gwallau, twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Wrth baratoi'r cyfrifon disgwylir i'r ymddiriedolwyr ddewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson, gan farnu ac amcangyfrifo'n rhesymol ac yn ddoeth. Mae'r cyfrifon hyn wedi'u llunio ar sail "derbyniadau a thaliadau" fel y disgrifir yn adran 133 o Ddeddf Elusennau 2011.

Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion

Cyfrifon Derbynebau a Thaliadau hyd at 31 Rhagfyr 2025

	2025 £	2024 £
DERBYNEBAU		
Tanysgrifiadau	17,908	18,725
Cyfraniad Cymdeithas Maldwyn	300	300
Incwm buddsoddiadau	5,957	6466
Gwerthiant cyhoeddiadau eraill	1,096	67
Ad-daliad Cymorth Rhodd	2,485	0
Cymdeithas Trwyddedu Cyhoeddwy	441	357
Cymunroddion a rhoddion	0	1,500
Incwm llog	328	206
	28,515	27,621
Gwerthiant buddsoddiad	32,213	
CYFANSWM DERBYNEBAU	60,728	27,621
 TALIADAU		
Treuliau cyfarfodydd	13,654	14,495
Trafodion	8,539	14,956
Postiadau	224	0
Gwefan a TG	4,991	4,351
Rhaglen	608	472
Archifau	1,387	1,236
Cyfrifyddiaeth	1,200	1,200
Costau a thaliadau amrywiol eraill	0	53
Grantiau a rhoddion	500	0
Taliadau CAF, PP a GC	296	284
Medalau, cyflwyniadau a chofebion	0	2,135
Gwasanaethau cyfieithu	430	472
Costau banc	46	65
CYFANSWM TALIADAU	31,875	39,719
 DERBYNIADAU NET/(TALIADAU)	 28,853	 -12,098
 Cronfeydd arian parod diwedd llynedd	10,111	22,209
Cronfeydd arian parod diwedd eleni	38,964	10,111

Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion

Datganiad asedau 31 Rhagfyr 2025

CRONFEYDD ARIAN PAROD

Prif gyfrif HSBC	3,045	2,687
Cyfrif cadw HSBC	35,030	6,377
Ail gyfrif HSBC	0	25
Cyfrif PayPal	889	1,022
CYFANSWM CRONFEYDD ARIAN PAROD	38,964	10,111

ASEDAU BUDDSODDIAD (gwerth cyfredol)

M&G Equities Investment Fund	45,260	38,575
M&G Fixed Interest Fund	0	32,067
Cronfa SUTL Cazenove Equity	76,278	62,706
CYFANSWM CRONFEYDD BUDDSODDIAD	121,538	133,348

Nodyn:

Mae'r cronfeydd arian parod yn cynnwys £1,000 (2024 - £1,500) fel cronfa gyfyngedig - Gwobr Angharad Dodds John